# Taith Cwricwlwm i Gymru

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

# Ymgysylltiad gyda'r rhanddeiliaid

- Llunio gweledigaeth cychwynnol
- Rhannu cynlluniau gyda rhieni / bwrdd llywodraethol ac addasu ar sail adborth
- Rhannu arferion da trwy waith Cyfleoedd+
- Ymgymerwyd ag hyfforddiant yn rhan o brosesau DPP yr ysgol (aelodau staff MDaPh)
- Gosodwyd targed Rheoli Perfformiad datblygu CiG i bob aelod staff
- Hyfforddwyd aelodau staff o fewn MDaPh gan CCDC
- Trafodaethau gyda swyddogion yr ALl / CCDC / Grwp Arweinyddiaeth Penaethiaid RhCT / Prifathro Cyswllt Cyfleoedd+
- Sesiynau DPP CCDC / Academi Arweinyddiaeth / CYDAG / Gyda'n Gilydd
- Ymgysylltu wythnosol Clwstwr Cwm Rhondda cyd-gynllunio a chyd-greu fesul MDaPh a rhannu arfer da (+ diwrnod HMS ar y cyd)

# Gweledigaeth Clwstwr Cwm Rhondda

Gwnawn Gwm Rhondda'n falch o Gymru

a Chymru'n falch o Gwm Rhondda.

*Mae gwreiddiau ddoe yn ymestyn drwy'r tir,*

*Ymestyn gan fwydo ein hanes hir,*

*Gan greu cymuned o ysgol fyw*

*Yn perthyn heddiw, bob llun a lliw.*

*Mae pŵer heddiw yn ein dwylo i gyd,*

*i greu yfory sy'n well o hyd.*

# Cynnwys rhanddeiliaid yr ysgol yn y broses

- Parhau i gynnwys rhieni, a datblygu ymhellach adran Cwricwlwm Cwm Rhondda ar wefan yr ysgol.
- Rhannwyd adroddiadau diwygiedig i CA3 gan sicrhau mewnbwn ac addasu yn ôl argymhellion rhieni.
- Trafodaethau am  gynnydd a gwaith CiG yn yr Is-bwyllgor Dysgu ac Addysgu > edrych i ddatblygu rolau llywodraethwyr cyswllt MDaPh.
- Rhannwyd cyfleoedd hyfforddiant gyda Llywodraethwyr.
- Cydweithio yn parhau gyda'r ALl / CCDC / Cyfleoedd+ / Gyda'n Gilydd a chwaer ysgolion.
- Estyn > ymgymryd gyda diweddariad hyfforddiant arolygydd cymheiriaid.

# Gofynion y cwricwlwm

Wrth lunio ein cwricwlwm ysgol, defnyddiwyd y pedwar diben a'r datganiadau yr hyn sy'n bwysig gan arweinwyr pob maes dysgu a phrofiad i lunio disgrifiadau dysgu ysgol, gan treialu gyda cwricwlwm Blwyddyn 7 (2021/22) ac wedyn Blwyddyn 8 (2022/23), ac yna eu haddasu i gydfynd gydag gofynion Ysgol Gyfun Cwm Rhondda. Bu arweinwyr pynciau ac oedrannau cynradd hefyd yn mapio sut byddai'r sgiliau trawsgwricwlaidd yn cael eu dysgu ar draws meysydd gwahanol, a datblygwyd dargedau ar gyfer y sgiliau yma i gael eu defnyddio wrth asesu gwaith. Mae'r ysgol hefyd wedi gweithio'n agos iawn gyda'r ysgolion clwstwr i gysoni'r sgiliau er mwyn i bob disgybl fod wedi cael yr un cyfleoedd a phrofiadau dysgu erbyn cyrraedd blwyddyn 7.

# Adolygu'r Cwricwlwm

- Yn dilyn treialu'r cwricwlwm newydd gyda Blwyddyn 7 (2021/22) fe wnaeth y MDaPh addasu ei cynlluniau gwaith ar diwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau datblygiad o gwricwlwm sydd mwyaf addas ar gyfer dysgwyr Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.
- Yn dilyn treialu'r cwricwlwm newydd gyda Blwyddyn 8 (2022/23) fe wnaeth y MDaPh addasu ei cynlluniau gwaith ar diwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau datblygiad o gwricwlwm sydd mwyaf addas ar gyfer dysgwyr Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.
- Yn ystod tymor yr Haf, mi fydd arweinwyr yn casglu adborth yr holl rhanddeiliaid ar yr agweddau o CiG [dulliau asesu, cynnwys, cynnydd a phwrpas] er mwyn gwerthuso, adolygu a mireinio'r cwricwlwm.